# Cyngor Cymuned Pentir

**Cofnodion cyfarfod Is Bwyllgor Cyllid gynhalwyd yng Nganolfan Gymued Penrhos am 7.00pm Nos Fercher 28ain o Fedi 2022**

1. Presennol Cyng D W Jones Cyng D Jones-Morris Cyng J Pierce Cyng I Ellis Cyng B. Jones a'r Clerc

2. Ymddiheuriadau Cyng L A James a Cyng J Lewis
   Yn sgil derbyn ymddiheuriad Cadeirydd yr Is-Bwyllgor etholwyd Cyng D W Jones i Gadeirio

3. Cod Ymddygiad
   Neb yn datgan buddiant

4. Cofnodion Cyfarfod diwethaf 27-07-2022
   Derbynwyd fel cofnodion cywir ar gynnig Cyng I Ellis gafodd ei eilio gan y Cyng D Jones-Moriis

5. Materion yn codi o'r cofnodion
   Dim newyddion pellach am y cysgodfannau bws **Clerc i Gysylltu hefo Gwynedd eto**

6. Adroddiad Ariannol
   Dosbarthwyd matolen ariannol Medi oedd yn dangos £48,842.42 yn y cyfrif cyfredol yn dilyn derbyn ail ran y Praesept a £45,046.39 yn y cyfrif cadw
   Trafodwyd fod gwir angen adnabod prosiectau sydd angen eu gwneud ar fyrder yn ystod y flwyddyn ariannol yma yn enwedig o gofio fod ein arbedion o Parc Menai bellach ers 4 blynedd.
   Mae'n anhebygol bydd costau ychwanegol y ganolfan newydd yn mynd i fod llawer uwch na'r arbedion 2 flynedd fel oedd ein cynlluniau gwreiddiol o £25k - £30k
   Gallwn felly ystyried sefydlu is-grwpia i edrych ar
   - Addasu Capel y Fynwent i fod yn adeilad aml-bwrpas
   - Cael Gym/Campfa awyr agored yn yr ardal
   - Adnabod tit ar gyfer Rhandiroedd
   - Llwybro'r fynwent newydd
   - Diffibs ychwanegol – Adnabuwyd 5 ardal Pant Caerhun
     Cyfinnia yr Antelope
     Ffordd Crwys/Cynan
     Capel Graig
     Rhosfryn

   Nodwyd byddai posib ystyried Stad Redrow unwaith byddai'r ffyrdd wedi eu mabwysiadu **Clerc i wneud ymholiad** gan fod y ffyrdd wedi eu gwella
   Nodwyd hefyd fod bellach posib gwneud cais drwy Unllais Cymru am y peiriant ei hun ond byddai angen talu am y cabinet a cyswllt trydannol

7. Archwylio
   Dim diweddariad
8. Taliadau angen sylw
   Cadarnhawyd oherwydd dros ddau fis wedi mynd ers ein cyfarfod dwaetha fod y Clerc wedi gwneud cais electronig i dalu rhai o'r taliadau isod a'r caniatad wedi ei roi
   Scottishpower **£99.76** aeth yn £109.76 Esbonwyd fod y Cwmni wedi ychwanegu **£10.00** i'r anfoneb wreiddiol am daliad hwyr
   Cyflog Awst £610.24 HMRC Ebrill M 5 £152.60
   D W Lewis Torri gwair Gorffennaf £685.00 Delwedd Trwydded SSL £ 91.15
   J D Gardening Cae Chwarae Caerhun 25/7 a 15/8 £ 150.00
   D W Lewis Torri gwair Mis awst £685.00 Cymen Cyf Cyfieithu £391.68

Scottishpower £ 67.74 Oedd erbyn hyn wedi cynnwys y **£10.00** taliad hwyr

Tal i mewn Ail ran Praesept wedi ei dderbyn £27,500.00

9. Ceisiadau Nawdd Seintiau Bangor Cais wedi ei dderbyn ynghyd a mantolen

**Argymell cyfrannu £300.00 iddynt**

Ty Gobaith Cais llythyr wedi ei dderbyn ond dim mantolen

**Clerc i gysylltu i ofyn am fantolen a hefyd gwiro pryd fu'r cyfraniad olaf atynt**

10. Prosiectau

a. Ysgol Y Faenol

Yn absennoldeb Cyng L A James sef ei cyswllt ni fu posib cael diweddariad

b. Campfa awyr agored / Cyfrifoldeb Caeau chwarae Gwynedd

Y clerc wedi cael cyswllt gan gwmni oedd yn cyflenwi ag yn awyddus i drefnu cyfarfod

**Cytunwyd i sefydlu Is Grwp**

11. <u>I'w trafod hefyd</u>

- Cofrestr Risg/Polisia

Trafodwyd ein cofrestr i adnabod pa elfennau allai aelodau ymgymeryd a hwy i leihau y Risg a hefyd edrych dros ei Polisiau i weld os oedda nhw angen eu addasu cy neu ail fabwysiadu

Cytunwyd hefyd i symund yr eitem yma i'w drafod yn gynharach yn yr Agenda yn hytrach na fel yr eitem olaf o bob cyfarfod

- Llwybr Treborth – Oes diweddariad ?

  Ei gynnwys ar Agenda y Cyngor Llawn

Daeth y cyfarfod i ben am 8.45